Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **8 Tachwedd 2016** |
| **Amser:** | **14:00 – 15:10** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) [Rhan o'r cyfarfod]<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu a Dirprwy Swyddog Monitro, SCHTh (SR) [Rhan o'r cyfarfod]<br>Mrs Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu, SCHTh (ALP) [Rhan o'r cyfarfod]<br>Mrs Irene Davies Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyfiawnder Troseddol Strategol (IDJ) [Rhan o'r cyfarfod]<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS) [Rhan o' cyfarfod] |
| **Ymddiheuriadau:** | Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 25/10/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2070** | **SCHTh a Swyddog Diogelwch y Ffyrdd i archwilio i gyfleoedd ar gyfer cydweithio â Heddluoedd eraill mewn perthynas ag ymgyrchoedd hysbysebu diogelwch y ffyrdd** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2071** | **Ystyried elfennau ymchwil o gynnig diogelwch y ffyrdd yng nghyfarfod agoriadol y Bwrdd Ymchwil** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2072** | **Yr Heddlu i ganfod pa un ai a yw gwrthdrawiadau allffordd yn cael eu hadlewyrchu o fewn ystadegau gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2073** | **Y PG i roi crynodeb i'r CHTh o ystadegau trosedd y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2074** | **SCHTh i rannu'r adroddiad drafft ar y Cynllun Heddlu a Throseddu â'r Heddlu** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2075** | **Y CA i roi esboniad i'r CHTh o ran sut y mae ceisiadau arfau saethu sy'n mynd dros 75 diwrnod yn cael eu rheoli** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2076** | **Yr heddlu i nodi eu pwynt cyswllt sengl ar gyfer datblygu'r gwasanaeth bodlonrwydd dioddefwyr** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2077** | **Y PSA i rannu'r cynnig bodlonrwydd dioddefwyr â'r Heddlu** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2078** | **PSA i ddosbarthu'r cofnod penderfyniadau a'r** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| | **cynllun gweithredu ar gyfer trosglwyddo'r gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr** | |
| **PB 2079** | **SCHTh i ddatblygu cytundebau gwasanaeth er mwyn i'r gwasanaethau bodlonrwydd defnyddwyr a chyfeirio dioddefwyr i gychwyn o 1 Ebrill 2017** | **Cyfredol** |
| **PB 2080** | **Trafod Parthau Plant yn y Byrddau Gwasanaethau Lleol sydd ar ddod a drafftio ymateb i Lywodraeth Cymru gan amlinellu cefnogaeth HDP** | **Ar waith** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 08/11/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Penderfyniad** | **Crynodeb o'r penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 14** | **Mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo prynu hen gerbyd arddangos Uned Wrth Gefn yr Heddlu, sef Vauxhall Movano, am £30,528.22** | **CA** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref a materion yn codi**

Nodwyd nifer o ddiwygiadau a byddai'r rhain yn cael eu gwneud cyn cyhoeddi.

Gofynnodd y PSA am godi cam gweithredu er mwyn cytuno ar ddyddiad ar gyfer y gwaith mewn perthynas â bodlonrwydd dioddefwyr / cam-drin domestig i'w ddychwelyd ar gyfer ystyriaeth y Bwrdd. Cytunwyd bod angen cwblhau'r gwaith mewn da bryd er mwyn i'r gwasanaeth fod yn weithredol erbyn 1 Ebrill 2017. Dywedodd y PG y byddai dyddiad ar gyfer cyflwyno'r adroddiad yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona.

**Cam gweithredu: Rhoi diweddariad ar y polisi ar gyfer cynnal arolygon bodlonrwydd dioddefwyr gyda dioddefwyr cam-drin domestig mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol (dyddiad i'w gytuno ar 23/11/16)**

PB 2070 – ymgyrchoedd hysbysebu diogelwch y ffyrdd. Cadarnhaodd y PSA fod hyn wedi'i drafod ac y byddai'r mater yn cael ei symud ymlaen.

PB 2071 – ymchwil diogelwch y ffyrdd. Cadarnhaodd y CHTh bod y mater i'w drafod yng nghyfarfod agoriadol y Bwrdd Ymchwil ym mis Ionawr 2017.

PB 2072 – gwrthdrawiadau allffordd. Roedd yr Heddlu wedi cadarnhau nad oedd gwrthdrawiadau allffordd yn cael eu hadlewyrchu mewn ystadegau Gwrthdrawiadau Traffig y Ffyrdd.

PB 2073 – Ystadegau trosedd y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol. Roedd SCHTh wedi derbyn hyn.

PB 2074 – adroddiad ar y Cynllun Heddlu a Throseddu drafft. Cadarnhaodd SR bod hyn wedi'i rannu â'r Heddlu.

PB 2075 – ceisiadau arfau saethu. Roedd y CA wedi rhannu papur a oedd yn rhoi gwybodaeth bellach ar geisiadau cymhleth a sut maen nhw'n cael eu trin.

PB 2076 – pwynt cyswllt ar gyfer y gwasanaeth bodlonrwydd dioddefwyr. Cadarnhaodd y PG mai'r PGC/DD Kelly oedd y pwynt cyswllt.

PB 2077 – cynnig o ran bodlonrwydd dioddefwyr. Cadarnhaodd y PSA bod y papur cynnig wedi'i rannu.

PB 2078 – gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr. Cadarnhaodd y CHTh a'r PSA bod hyn yn mynd rhagddo ond byddai wedi'i gwblhau erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona.

PB 2079 – Cylch gorchwyl ar gyfer gwasanaethau bodlonrwydd a chyfeirio dioddefwyr. Dywedodd y PSA bod trafodaethau'n mynd rhagddynt.

PB 2080 – Parthau Plant. Cadarnhawyd bod llythyr i Lywodraeth Cymru'n cael ei ddrafftio gan SR.

**Diweddariad y Prif Gwnstabl**

Cadarnhaodd y PG nad oedd newid i'r statws sefydliadol, gyda 6 aelod staff wedi'u hatal o'r gwaith ar hyn o bryd.

Tynnodd y PG sylw at ddigwyddiadau gweithredol allweddol gan gynnwys marwolaeth sydyn plentyn. Roedd digwyddiad a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau wedi arwain at swyddog yn dioddef ymosodiad. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r cynnydd yn nifer yr ymosodiadau ar swyddogion, gyda'r CHTh yn holi ynghylch y gwir nifer. Dywedodd y PG y byddai hyn yn cael ei adrodd i'r CHTh yn dilyn y cyfarfod.

**Cam gweithredu: Y PG i roi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â'r data diweddaraf mewn perthynas ag ymosodiadau ar swyddogion heddlu**

Daeth CM, ALP a IDJ i mewn i'r ystafell. Cytunwyd y byddai'r eitem agenda ar Gyfiawnder Adferol yn cael ei ystyried er mwyn caniatáu i ALP ac IDJ gyflwyno eu mewnbwn.

**Diweddariadau**

***Ymagweddau Cyfiawnder Adferol (CA)***

Trafododd IDJ y papurau a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Roedd Cyfiawnder Adferol wedi'i oedi gan ddisgwyl newidiadau cenedlaethol i warediadau y tu allan i'r llys, ond teimlwyd ei bod hi'n amser symud ymlaen â chyfleoedd adferol er mwyn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Dioddefwyr. Ystyriodd IDJ bod angen i'r Heddlu nodi sut y byddai gwarediadau CA yn cael eu monitro. Holodd y CHTh pa un ai a oedd gan yr Heddlu strategaeth CA. Dywedodd IDJ nad oedd strategaeth drosfwaol, ond roedd canllawiau ar gyfer rheoli gwarediadau adferol ieuenctid ar gael. Roedd IDJ yn ystyried bod datblygu'r strategaeth yn ddarn sylweddol o waith. Cafwyd trafodaeth, gyda'r CHTh a'r PG yn cytuno bod angen strategaeth a chynllun cyflenwi er mwyn rhoi strwythur i staff gyflwyno CA. Holodd y CHTh pa un ai a oedd yn rôl sy'n cael ei sefydlu fel rhan o'r bwrdd cyfiawnder troseddol lleol yn medru cael golwg ar y darn hwn o waith. Ystyriodd IDJ ac ALP y byddai'r daliwr swydd yn gysylltiedig, ond ni fyddai'r wybodaeth weithredol ganddo i arwain y prosiect yn ei gyfanrwydd. Awgrymwyd y dylai'r Heddlu ryddhau aelod staff i symud y maes gwaith hwn ymlaen, a chytunwyd y gallai swyddog heddlu profiadol ddarparu'r wybodaeth weithredol i lywio'r prosiect. Awgrymodd y CHTh y gallai'r Bwrdd Ymchwil gynnal gwerthusiad o'r prosiect CA. Ystyriodd ALP hefyd y byddai'n ddoeth ymgysylltu â'r Panel Dioddefwyr er mwyn canfod barn dioddefwyr ynghylch CA.

Cafwyd trafodaeth ynghylch rhwymedi cymunedol a gweithgarwch monitro cysylltiedig. Sefydlwyd y byddai adolygiad o'r trefniadau cyfredol yn cael ei gynnwys yn y prosiect CA. Gofynnodd y CHTh am gael gweld adroddiadau blaenorol mewn perthynas â rhwymedi cymunedol. Tynnodd ALP sylw at y ffaith bod gwaith wedi'i gyflawni'n flaenorol er mwyn alinio'r ddewislen datrysiadau cymunedol oedolion â gwasanaethau a gomisiynwyd ac awgrymodd y dylai'r adroddiad hwn gael ei roi i'r CHTh hefyd.

**Cam gweithredu: Y PG i nodi swyddog ar gyfer arwain y prosiect CA**

**Cam gweithredu: Gwerthusiad o'r prosiect CA i'w gynnal drwy'r Bwrdd Ymchwil**

**Cam gweithredu: Y CHTh i dderbyn adroddiadau blaenorol mewn perthynas â rhwymedi cymunedol, gan gynnwys gwaith ar y ddewislen datrysiadau cymunedol oedolion**

Gadawodd SR y cyfarfod.

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Cynllun ymwybyddiaeth canabis ac alcohol***

Rhannodd ALP y map proses sy'n esbonio sut y dylai'r cynllun weithredu. Mynegodd y CHTh bryder bod nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y cynllun yn isel iawn - roedd 2

gyfeiriad wedi'u derbyn drwy rybuddion amodol, a dim un drwy hysbysiadau cosb benodedig. Holodd y CHTh ynghylch nifer yr hysbysiadau cosb benodedig sy'n cael eu cyhoeddi am droseddau lefel isel sy'n gysylltiedig ag alcohol a chanabis. Dywedodd ALP ei bod hi wedi dod i'r amlwg y bu achosion lle gellid fod wedi defnyddio'r cynllun, ond nid oedd wedi'i ddefnyddio. Roedd cyfathrebiadau amrywiol wedi'u darparu i swyddogion mewn perthynas â'r cynllun er mwyn codi ymwybyddiaeth, ond roedd cyfeiriadau dal yn isel iawn. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â hyrwyddo'r cynllun i ynadon; cytunodd ALP i godi'r mater mewn Bwrdd Cyfiawnder Troseddol er mwyn asesu pa un ai a ellir ehangu'r broses i gynnwys llwybr i mewn o'r llys. Awgrymodd y PG bod angen i'r Heddlu asesu pam nad yw cyfeiriadau'n cael eu gwneud. Mynegodd ALP bryder nad oedd swyddogion o bosibl yn adnabod pob achos lle y gallai unigolion fod yn gymwys ar gyfer cyfeiriad. Awgrymodd y PG ei fod yn nodi Uwch-arolygydd i hyrwyddo'r cynllun ymysg timoedd bro.

**Cam gweithredu: Yr Uwch-arolygydd Parmenter i weithio gydag ALP i hyrwyddo'r cynllun ymwybyddiaeth canabis ac alcohol ymysg timoedd bro**

Gadawodd IDJ ac ALP y cyfarfod.

## Diweddariad y Prif Gwnstabl

Parhaodd y PG â'i ddiweddariad, gan amlinellu dedfrydu dau unigolyn am lofruddiaeth ac arestio nifer o unigolion mewn perthynas â llofruddiaeth mewn ardal heddlu arall. Aeth swyddogion i ysbyty lleol er mwyn dal claf a oedd wedi ymosod ar aelodau o staff yr ysbyty. Yn dilyn gwaith helaeth gyda GEG, arestiwyd grŵp o droseddwyr teithiol ac fe'u cadwyd yn y ddalfa am ddwyn olew o burfa Valero. Ceisiodd y CHTh sicrwydd bod cyfnod Calan Gaeaf a Thân Gwyllt wedi mynd rhagddo'n esmwyth, Dywedodd y PG bod ymgyrch BANG wedi'i gynnal, ac nad oedd unrhyw ddigwyddiadau mawr wedi digwydd. Roedd paratoadau ar gyfer gwasanaethau coffa hefyd ar waith.

Dywedodd y CHTh bod Comisiynydd y Gymraeg wedi ymweld â'r Heddlu yn gynharach yn y dydd er mwyn trafod y safonau Cymraeg arfaethedig. Roedd ei thaith wedi cynnwys ymweliad â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu lle welodd drin galwadau a rhannu cudd-wybodaeth effeithiol.

## Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Tynnodd y CHTh sylw at y ffaith bod ei flaenoriaethau cyfredol yn cynnwys datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu a lobïo mewn perthynas â'r fformiwla ariannu. Canmolodd y CHTh y gefnogaeth a ddarparwyd gan y Cyfarwyddwr Cyllid (CC) o ran paratoi papur i gefnogi gweithgareddau'r CHTh. Roedd y papur wedi'i gyflwyno i'r Gweinidog Plismona mewn ymateb i'r ymgynghoriad; roedd y CHTh wedi cynnal galwad cynhadledd gyda Dyfnaint a Chernyw, ac roedd wedi ymgysylltu â ChHTh Gogledd Cymru a oedd yn arwain

y mater ar ran heddluoedd gwledig a Chymru. Byddai'r CHTh, CC a'r PSA yn cwrdd â'r Gweinidog Plismona ac Aelodau Seneddol wythnos nesaf. Roedd y CHTh hefyd yn gobeithio cwrdd ag Aelodau Cynulliad yn y dyfodol agos. Roedd y CHTh yn ystyried bod angen uno ar draws pleidiau gwleidyddol er budd Dyfed-Powys. Dywedodd y PG bod y perygl y bydd y fformiwla ariannu ar draul HDP yn uchel iawn, gydag effaith sylweddol ar gymunedau. Gan hynny, ystyriodd ei bod hi'n hollbwysig bod y CHTh a'r PG yn lobïo i'r perwyl hwn.

Dywedodd y CHTh y byddai'n gysylltiedig â'r Bwrdd Cenedlaethol TGCh a Chymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

Roedd y CHTh wedi bod yn rhan o drafodaethau ynglŷn ag ariannu Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan ddweud pe bai'r model galwadau am wasanaeth yn cael ei roi ar waith, gallai HDP arbed dros £500,000 y flwyddyn, tra bod ardaloedd eraill yn wynebu cynnydd o ran costau. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r posibilrwydd o gyflwyno awyren adenydd sefydlog ymhen 12 mis. Roedd y CHTh yn ymwybodol o bryderon y PG mewn perthynas ag addasrwydd y math hwn o awyren ar gyfer HDP, a byddai'n adlewyrchu hyn i'r Bwrdd Cenedlaethol yn unol â hynny.

Byddai'r ymgynghoriad praesept yn cael ei lansio yn ystod yr wythnos i ddod, a byddai'n cynnwys esboniad o'r hyn y mae'r cyllid yn ei olygu i breswylwyr a'r Heddlu.

**Diweddariad y Cyfarwyddwr Adnoddau**

***Tendr cerbyd Uned Wrth Gefn yr Heddlu***

Cyflwynodd y CA y papur yn gofyn am awdurdod i brynu cerbyd newydd ar gyfer gorsaf heddlu Rhydaman. Cytunodd y CHTh a'r PSA bod y cynnig yn cyflwyno gwerth da am arian gan mai hen gerbyd arddangos ydoedd ac roedd yn gydnaws ag offer presennol.

**Penderfyniad: Mae'r Comisiynydd yn cymeradwyo prynu hen gerbyd arddangos Uned Wrth Gefn yr Heddlu, sef Vauxhall Movano, am £30,528.22**

**Diweddariad y Prif Swyddog Ariannol**

Roedd y PSA yn deall y byddai ymgynghoriad ar gyfer y fformiwla ariannu newydd yn cael ei agor ym mis Chwefror, a oedd yn cyflwyno amserlen heriol ar gyfer ymateb, fodd bynnag, sicrhaodd y PSA bod gwaith yn cael ei gyflawni er mwyn paratoi cymaint â phosibl i gyflwyno achos HDP.

Roedd y strategaeth ystadau ar gyfer pencadlys yr heddlu'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, gyda'r nod o adnabod y gofynion ar gyfer y 5 blynedd nesaf. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei gydlynu ag adnewyddu'r bloc llety.

Roedd y Grŵp Llywodraethu wedi cwrdd yn gynharach yn y dydd i ystyried canllawiau llywodraethu newydd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth. Roedd hunanasesiad yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd er mwyn cadarnhau lle'r oedd y sefydliadau o ran cydymffurfio â'r canllawiau.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 08/11/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2081** | **Rhoi diweddariad ar y polisi ar gyfer cynnal arolygon bodlonrwydd dioddefwyr gyda dioddefwyr cam-drin domestig mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol (dyddiad i'w gytuno ar 23/11/16)** | **PG** |
| **PB 2082** | **Y PG i roi diweddariad i'r CHTh ynglŷn â'r data diweddaraf mewn perthynas ag ymosodiadau ar swyddogion heddlu** | **PG** |
| **PB 2083** | **Y PG i nodi swyddog ar gyfer arwain y prosiect CA** | **PG** |
| **PB 2084** | **Gwerthusiad o'r prosiect CA i'w gynnal drwy'r Bwrdd Ymchwil** | **SCHTh** |
| **PB 2085** | **Y CHTh i dderbyn adroddiadau blaenorol mewn perthynas â rhwymedi cymunedol, gan gynnwys gwaith ar y ddewislen datrysiadau cymunedol oedolion** | **SCHTh** |
| **PB 2086** | **Yr Uwch-arolygydd Parmenter i weithio gydag ALP i hyrwyddo'r cynllun ymwybyddiaeth canabis ac alcohol ymysg timoedd bro** | **Uwch-arolygydd Parmenter** |